

12fed o Fedi 2013

Annwyl Rieni/Warcheidwaid,

**Par: Presenoldeb**

Eleni targed Ysgol Brynrefail ar gyfer presenoldeb pob disgybl yw 95%+. Mae digon o dystiolaeth i awgrymu bod presenoldeb cyson yn yr ysgol yn allweddol i lwyddiant disgyblion. Dyma rai ffeithiau:

- Mae ymchwil yn profi bod colli 17 diwrnod ysgol yn gallu arwain at ddisgyblion yn ennill 1 radd yn is yn eu arholiadau TGAU ar draws pob pwnc.
- Dim ond oddeutu 35% o ddisgyblion fydd yn ennill A\*-C yn safon TGAU os ydynt yn colli rhwng 10-20% o'r ysgol.
- Mae presenoldeb o 90% yn ymddangos yn dda ond mae hyn yn cyfateb i golli  $\frac{1}{2}$  diwrnod o'r ysgol yn wythnosol neu bron i bedair wythnos yn gyfan gwbl.
- Mae dystiolaeth bod disgyblion sydd yn colli ysgol yn rheolaidd yn fwy tebygol o droseddu yn gyffredinol. Gofynnwn felly am eich cefnogaeth i sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Os bydd eich plentyn yn methu dod i'r ysgol gofynnir i chi:

Roi gwybod i'r ysgol trwy alwad ffôn ar 01286 672381 neu e-bost at [swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk](mailto:swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk) cyn 10.00 y bore ar fore cyntaf yr absenoldeb os gwelwch yn dda. Eleni byddwn yn treialu system o anfon neges testun i gartrefi disgyblion onifyddwn wedi derbyn esboniad am absenoldeb.

Gofynnir i chi geisio gwneud pob ymdrech i drefnu apwyntiadau meddygol a deintyddol arferol y tu allan i oriau ysgol.


- Nid ydym yn annog rhieni i gymryd eu plant allan o'r ysgol am wyliau yn ystod y tymor ysgol. Os ydych yn penderfynu mynd ar wyliau yn ystod y tymor ysgol rhaid cysylltu gyda'r ysgol am ganiatad ysgrifenedig 4 wythnos ymlaen llaw. Yn unol gyda chanllawiau'r Awdurdod Addysg fe

fydd unrhyw absenoldeb gwyliau ar gyfer disgyblion blynnyddoedd 10 ac 11 yn cyfrif fel absenoldeb anawdurdodedig.

- Bydd aelodau o staff yn monitro presenoldeb pob disgybl yn ofalus iawn. Os ydych yn bryderus am bresenoldeb eich plentyn neu mewn achos o broblem a all effeithio ar bresenoldeb eich plentyn gofynnir i chi gysylltu gyda'r ysgol er mwyn trafod y mater gyda'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol os gwelwch yn dda.

Diolchaf ymlaen llaw am eich cydweithrediad. Dim on un cyfle a gaiff eich plentyn i wneud y gorau o'u haddysg yn yr ysgol, a'r cyfle i sicrhau dyfodol cadarnhaol. Hyderaf yn fawr felly y gallwch gydweithio gyda ni er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau posib i'ch plentyn lwyddo yn yr ysgol.

Yn gywir,



Ellen A Williams  
Dirprwy Bennaeth